DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**144** **EBRILL 1988**

# DEWCH AT EICH COED

Am y tro cyntaf ers ei chychwyn yng nghanol y saithdegau, mae coeden o Gymru wedi ennill un o'r cystadlaethau pwysica ym myd cadwraeth trwy wledydd Prydain, cystadleuaeth 'Treeshape '88'. Dyfarnwyd y wobr am goeden fwya siapus a deniadol Prydain i gollen Ffrengig ym Mharc Cefn Onn ar gyrion Caerdydd. Mewn seremoni a gynhaliwyd fore'r gem rygbi rhyngwladol rhwng Cymru a Ffrainc, ym Mharc Cefn Onn, cyflwynodd llywydd 'Treeshape '88', Dr. O.G. Weatherfield, siec am £3,000 i Swyddog Parciau Cyngor De Morgannwg, James Robertson, ac fe ddadorchuddiwyd plac wrth fynedfa'r parc i gofnodi'r fuddugoliaeth.

Enwebwyd rhai miloedd o goed ar gyfer 'Treeshape '88' a thasg gynta'r beirniaid oedd didoli lluniau o'r holl goed a llunio rhestr fer o gant cyn teithio trwy wledydd Prydain i feirniadu'r coed yn eu cynefin.

Dyma'r tro cynta' i goeden yng Nghymru i ennill y gystadleu aeth, er i dderwen ger Rhaeadr ddod yn drydydd ym 1983. Ond ma'r fuddugoliaeth eleni yn fwy hynod fyth gan taw dyma'r tro cyntaf yn hanes cystad-leuaeth 'Treeshape' i goeden ddinesig i gipio teitl 'Coeden fwya siapus Prydain'. Hyd eleni ystyrid llygredd yr awyr mewn trefi a dinasoedd yn ormod o rwystr i goeden fedru tyfu i'w llawn botensial. Dywedodd Dr. Weatherfield wrth gyflwyno'r siec fod hyn yn brawf o'r cynnydd pendant yn ymwybyddiaeth cynghorau lleol a diwydiant o'r angen am ddiogelu'r amgylchedd a'i fod yn arwydd sicr fod byd natur yn ailgydio hyd yn oed o fewn ein dinasoedd.

Sefydlwyd cystaleuaeth 'Treeshape' 'nol ym 1976, y flwyddyn y bu farw cannoedd o filoedd o goed ym Mhrydain o afiechyd 'Dutch Elm'. Y bwriad gwreiddiol oedd annog unigolion i beidio diystyrru unrhyw goed oedd yn tyfu yn lleol ac i fwrw ati o ofalu amdanyn nhw. Bu'r ymgyrch yma mor llwyddiannus fel y penderfynwyd newid pwyslais a gofynion y gystadleuaeth ym 1981 yn y gobaith o fedru denu perchnogion busnesau bychain a chynghorau lleol i gystadlu.



Mae'r syniad wedi tyfu'n aruthrol ers hynny. Trefnwyd 'Treeshape '88' ar y cyd rhwng rhyw ddeg o fudiadau, yn eu plith y Comisiwn Cefn Gwlad, y Comisiwn Coedwigaeth, y Cyngor Gwarchod Natur ac Adran yr Amgylchedd. Eu penderfyniad nhw oedd gwneud y gystadleu-aeth yn llawer mwy uchel-geisiol a chynnig y wobr am harddwch coeden yn hytrach nag am achub coeden yn unig. Nid mater hawdd yw penderfynu ar harddwch coeden, ond ma 'na restr faith o reolau y mae'n rhaid eu boddhau os yw coeden arbennig am gael unrhyw siawns o ennill. Ar gyfer 'Treeshape '88' cynigiwyd y wobr am goeden gwbl aeddfed, ei boncyff i fod yn gryf a chadarn, lliw y rhisgl i fod yn gwbl nodweddiadol o'r math a rhaid oedd i'r goeden fod o fewn deg troedfedd o daldra i'w llawn maint. Yn ol un beirniad fodd bynnag, y ffactor bwysica heb unrhyw amheuaeth, oedd ffurf, siap a dosbarthiad y canghenau. Yn hyn o beth roedd nifer o goed Parc Cefn Onn a'r un gollen Ffrengig yn enwedig yn rhagori o gryn dipyn ar y cystadleuwyr eraill i gyd.

Er fod y beirniaid yn unfrydol ynglyn a'r enillydd, 'dyw pawb ddim yn cytuno a'r dyfarniad. Dros y dair blynedd ddiwetha, coed yn Swydd Caint a'r De Ddwyrain sydd wedi cipio'r wobr. Eleni mae carfan gref o'u garddwyr nhw wedi galw am ddiddymu'r gystaleuaeth yn sgil y difrod a achoswyd i gannoedd o goed yn ystod y stormydd aruthrol ddiwedd mis Hydref y llynedd. Does dim amheuaeth mai coed De Ddwyrain Prydain ddioddef-odd fwya yn y stormydd ac fe fyddai nifer o'r rhai a ddinistriwyd yn sicr wedi denu sylw'r beirniaid. Ond pwysleisiodd y beirniaid fod safon y coed yn y gystadleu-aeth eleni gyfuwch ag erioed er gwaetha drwg-effeithiau'r stormydd, a bod y gollen Ffrengig ym Mharc Cefn Onn yn cymharu'n ffafriol iawn ag ennillwyr y gorffennol.

Y Comisiwn Cefn Gwlad fydd yn llywio'r gystadleuaeth y flwyddyn nesa a dywedodd llefarydd ar eu rhan ei fod yn hyderus y bydd y fuddugoliaeth yn hwb i eraill yng Nghymru i fynd ati i gystadlu y flwyddyn nesa. Os am fwy o fanylion am gystadleuaeth 'Treeshape '89 cysylltwch ag Adran Amgylchedd ein Cyngor Lleol.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Huw Harries, mab Dr a Mrs Jestyn Harries ar gael ei ddewis yn gapten Tîm Rygbi Ysgolion Cymru o dan 15 oed. Pluen yn ei gap yn sicr. Bydd y tîm cyn hir yn chwarae ar faes y Strade Llanelli yn erbyn tîm o'r Eidal, ac yn teithio i chwarae yn yr Alban ddydd Llun y Pasg. I fyny bo'r nod Huw.

Llongyfarchiadau i Tadcu Felingron sydd wedi ymgartrefu efo'i ferch Dr Jane Jones a'r teulu yn Lady Mary Road. Dathlodd ei benblwydd yn ddiweddar a mawr fu'r dathlu.

Llongyfarchiadau i Mari Rowley ar ei phriodas yn ddiweddar â Dr J.C.B. Fenton. Dymunwn ddyfodol hapus a digwmwl i'r ddau. Gobeithient ymgartrefu yn yr Eglwysnewydd.

Llongyfarchiadau i John Watkin ar ei benodiad i swydd newydd. Bydd yn newid aelwyd, yn gadael y BBC ac yn ymuno â HTV.

Llongyfarchiadau i Moelwyn Jones, Llandâf ar ei benodiad yn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus gyda'r Swyddfa Post. Cyn ymuno a'r Swyddfa bu Moelwyn yn gweithio gyda'r BBC.

# GOLEUO

Y mae'n braf cael nodi llwyddiant Dewi Waterman a anwyd ac a fagwyd yn Rhiwbina ond sydd bellach wedi ymgartrefu yn Ontario, Canada. Yr oedd Dewi a'i chwaer Lowri yn un o ddisgyblion cyntaf Bryn Taf.

Bu'n gweithio yn y byd cyhoeddi am flynyddoedd a nawr mae'n berchen ar ei wasg ei hun. Cyfrolau arbenigol technegol a gyhoeddir ganddo gan gynnwys llawer o waith cyfrinachol ar gyfer y llywodraeth.

Bu'r cwmni yn arbrofi mewn un maes diddorol iawn sef datblygu inc 'luminous'. O'i ddefnyddio gellir darllen y print yn glir mewn lled-dywyllwch. Ar gais y gwasanaethau cudd y bu Dewi'n arbrofi gyda'r dulliau hyn, ond mae'n bosib y gall fod marchnad fwy eang i lyfrau a brintiwyd yn y modd hwn.

Er enghraifft, petai'r gŵr yn methu cysgu, gallai ddarllen yn y tywyllwch heb orfod rhoi'r golau a deffro'i wraig.

Tybed a fyddai Dewi yn ystyried cyhoeddi cyfrol 'luminous' Gymraeg? 'Efallai'n wir', meddai. 'Beth am Un Nos Ola' Leuad neu'n well fyth Tywyll Heno!'

Dymunwn yn dda iddo ef, ei wraig Natasha a'r plant Tristan a Meleri. Maent oll yn ddarllenwyr cyson o'r Dinesydd a anfonir atynt ar draws yr Iwerydd bob mis gan Mamgu sef Mrs Nellie Waterman, Heol y Coed.

Dylid anfon deunydd rhifyn Mai at y Golygydd erbyn Ebrill 18.

# Eisteddfod Casnewydd



Coeliwch neu beidio dyma pafiliwn newydd Eisteddfod Casnewydd

# PENODIAD

CYNGOR YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

CYHOEDDIAD I'R WASG

TREFNYDD EISTEDDFODAU'R DE

Penodwyd Mr Penri Roberts yn Drefnydd Eisteddfodau'r De i olynu Mr Idris Evans, sy'n ymddeol yn dilyn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.

Y mae Mr Roberts yn 45 mlwydd oed, yn briod, gydag un mab. Ar hyn o bryd ef yw Rheolwr Rhanbarthol Cynorthwyol Cymdeithas Dr Barnado's yng Nghymru.

Yn frodor o ardal y Glog yn yr hen Sir Benfro, treuliodd ran helaeth o'i lencyndod yng Nghaergybi. Ar ôl dyddiau ysgol bu'n aelod o staff Cyngor Dosbarth Gwledig y Fali, Ynys Môn, cyn ymuno â staff Dr Barnado ym 1967. Oddiar hynny, bu'n gweithio i'r gymdeithas yn Swydd Stafford, Gogledd Cymru a Dyfed a Phowys cyn ymgymryd â'i ddyletswyddau presennol.

Bydd yn dechrau yn ei waith gyda'r Eisteddfod ar Ebrill 5 fel Darpar Drefnydd ac yn symud i swydd y Trefnydd ar Fedi 1.

Ei gyfeiriad yw

O'r Diwedd
Gelliwen
Llechryd
Aberteifi
Dyfed    Ffôn 023 987 560

Emyr Jenkins
Cyfarwyddwr

# Dymuniadau Gorau

Dymuniadau gorau i Alison a John Keys wrth iddyn nhw symud i'w cartref newydd. Penodwyd John yn ddiweddar i swydd newydd fel peirianydd gyda'r cwmni sy'n adeiladu'r twnel rhwng Lloegr a Ffrainc a bu Alison yn llwyddianus yn ei chais am swydd yn Canterbury. Mae'n siwr y bydd rhieni Alison, Doreen a Haydn Thomas, yn ymweld â de-ddwyrain Lloegr yn aml iawn yn y dyfodol.

# YSGOL SANT FFRANSIS

**YSGOL ST. FFRANSIS Y BARRI YN DATHLU GWYL DDEWI A 400 MLWYDDIANT Y BEIBL.**

Plant yr ysgol hon, a'u rhieni a'u ffrindiau, athrawon, ffrindiau'r Gymraeg, yn ymgynnull y tu allan i Neuadd Cyngor y Barri a'r Fro. Hefyd gyda ni roedd plant a rhieni yr Ysgolion Meithrin gwirfodd-ol sy'n bwydo'r ysgol hon. Roed Roedd 'na gannoedd ohonom - a'r Wisg Cymreig liwgar i'w gweld ymhob man. Daeth Maer y Dre, y Cyng. H. Jarvie, i'n gweld yn cychwyn ar ein Taith Gerdded i Gapel Cymraeg Y Tabernacl, Y Barri. Roedd y capel yn llawn - dim lle gwag yn unman.

Cafwyd eitemau pwrpasol gan blant yr Adran Feithrin a phlant y ddau Dosbarth Derbyn. Bu plant Babanod Canol ac Uchaf yn canu ac yn actio stori cyfieithu'r Beibl. Hefyd yn ystod y Gwasanaeth clywyd 10 pennodd cyntaf Genesis yn yr ieithoedd canlynol :

Parch G. Watts - Hebraeg a Chymraeg (1588)
Mr. Dafydd Treharne - Lladin
Cyng. H. Jarvie - Saesneg
Rachel Williams - Cymraeg (1988)

Cafwyd anerchiadau pwrpasol gan Mr. D. Treharne (Awdurdod Addysg De Morgannwg) a'r Parch G. Watts, Gweinidog Eglwys Tabernacl, Y Barri.


HYSBYSEBWCH YN

Y DINESYDD

AM FANYLION A THALERAU CYSYLLTER A
TONY COUCH
2 CRYSTAL GLEN
Y WAUN
CAERDYDD

FFON: CAERDYDD 753625 neu 615821 est 344

# Penblwydd Hapus RHYDFELEN

YSGOL GYFUN RHYDFELEN - 25 OED

Eleni dethlir penblwydd Ysgol Gyfun Rhydfelen yn bump ar hugain oed. Agorwyd yr ysgol ym Medi 1962 ac wrth edrych yn ôl i'r cyfnod cyffrous hwnnw, gorfoleddwn yn y llwyddiant ysgubol a ddeilliodd o weledigaethau cwmni bychan o Gymry ymdrechgar a gweithgar - gwreiddiol eu breuddwyd am sefydlu cyfundrefn addysg uwchradd ddwyieithog ym Morgannwg pan sefydlwyd Ysgol Rhydfelen.

Pan agorwyd yr ysgol ym Medi 1962 dim ond 80 o ddisgyblion oedd yn bresennol, Mr Gwilym E Humphreys yn Brifathro, tri athro amser llawn a phedwar athro rhan amser. Erbyn hyn mae dros fil o ddisgyblion yn yr ysgol a 62 o athrawon amser llawn yn ychwanegol at y prifathro. Yn 1975, gadawodd Mr Gwilym Humphreys Rhydfelen a daeth Mr Ifan Wyn Williams yn Brifathro ar yr ysgol. Yntau, yn ei dro ar ôl cyfnod o ymdrechu'n gyson dros yr iaith Gymraeg, yn gadael yn 1982 a'r Prifathro presennol, Mr Dafydd Jones, yn dechrau ar ei ddyletswyddau yn Ionawr 1983. Mae'n ddiddorol nodi mai Gogleddwyr oedd y ddau Brifathro blaenorol a'r Prifathro presennol!

Adeiladau coed a godwyd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf fel Canolfan Hyfforddi oedd cartref cyntaf yr ysgol - heddiw mae'r adeiladau hyn yn gartref i Ysgol Isaf yr ysgol bresennol. Gwnaed ychwanegiadau sylweddol i'r adeiladau yn 1966 a 1973, ond dim ers hynny.

Ysgol Rhydfelen oedd y drydedd ysgol o'i math i'w hagor yng Nghymru a'r cyntaf yn Ne Cymru. Yr oedd dalgylch yr ysgol ym Medi 1962, yn cynnwys Caerdydd, y Barri, y Rhondda, Aberdâr, Glyn-Nêdd a Phontyrpidd. Erbyn 1966 roedd y cylch wedi ei ehangu i gynnwys Caerffili, Maesteg, Pontrhydyfen, Llanilltud Faerdref, Tonyrefail, Blaendulais a'r Rhymni, cylch o 50 milltir ar ei draws. Ym Medi 1969 hefyd daeth disgyblion o Fargoed i Rydfelen am y tro cyntaf, ym Medi 1972 disgyblion o Risca a Chwmbran ac ym Medi 1977 disgyblion o Ferthyr Tudful a'r cylch. Erbyn heddiw, sefydlwyd pedair Ysgol ddwyieithog arall o fewn dalgylch gwreiddiol Ysgol Rhydfelen - Ystalyfera, Llanhari, Glantaf a Chwm Rhymni a'r pumed Ysgol ddwyieithog yn agor am y tro cyntaf ym Medi 1988, sef Ysgol Gyfun y Cymmer. Onid mwy priodol, fyddai Ysgol Gyfun Cwm Rhondda?

Oherwydd yr holl ddatblygiadau hyn mae dalgylch Ysgol Rhydfelen wedi crebachu cryn dipyn. Erbyn heddiw, derbynnir disgbylion o ardal Pontypridd, y Rhondda, Cwm Cynon a Merthyr Tudful, ond ni fydd rhagor o ddisgyblion o'r Rhondda yn dod i Rydfelen ar ôl mis Medi 1988. Eto i gyd, cynyddu mae nifer y disgyblion, er yr holl grebachu a'r ddalgylch Ysgol Rhydfelen, ac yn sicr dengys hyn lwyddiant addysg dwyieithog o fewn Morgannwg Ganol.

Sefydlwyd yr ysgol er mwyn cyfrannu addysg i'r disgyblion mewn awyrgylch Gymraeg. Dysgir y mwyafrif o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at Safon A. Y Gymraeg a ddefnyddir yn gyfrwng cyfathrebu yn yr ysgol, a hi yw iaith cymdeithasol yr ysgol. Daw disgyblion i Rydfelen ar ôl derbyn eu haddysg gynradd mewn ysgol gynradd, Gymraeg, er mai o gartrefi digymraeg y daw 98% ohonynt. Erbyn hyn, nifer fach iawn o ddisgyblion a ddaw o gartref lle siaredir y Gymraeg gan y ddau riant. Derbynnir i Rydfelen y disgyblion hynny mae eu rhieni am




iddynt barhau eu haddysg ddwyieithog i lefel uwchradd, ac sydd, yn ôl barn yr ysgol gynradd, yn mynd i elwa o addysg uwchradd o'r fath.

Ysgol ddwyochrog (Gramadeg/Modern) oedd Ysgol Rhydfelen ar y cychwyn, ond ers rhai blynyddoedd bellach bu'n ysgol gyfun. Mae'n darparu ar gyfer disgybl o bob gallu a diddordeb rhwng 11 a 18 oed, ac y mae rhyddid i unrhyw ddisgybl i barhau ei addysg yn y chweched dosbarth o fewn yr Uned arbennig sydd ar gael ar eu cyfer. Yn Rhydfelen y dysgwyd yn ffurfiol bynciau fel Ffrangeg a Lladin am y tro cyntaf erioed drwy'r Gymraeg, a hi oedd yr ysgol gyntaf i ddysgu pynciau eraill drwy'r Gymraeg hyd at Safon A. Bu hyn yn sialens arbennig i athrawon yr ysgol, a golygydd waith ychwanegol go sylweddol oherwydd prinder gwerslyfrau Cymraeg. Mae'r prinder gwerslyfrau wedi lleihau mewn rhai meysydd erbyn hyn, ond erys gwaith yr athro yr un mor galed. Gwaith cydwybodol ac ymroddiad llwyr yr athrawon, dros y blynyddoedd, i hyrwyddo addysg ddwyieithog sy'n cyfrif yn bennaf am lwyddiant yr ysgol. Bu cryn arborfi ac arloesi hefyd mewn meysydd eraill yn ogystal â dysgu'n ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoir cryn bwyslais ar fywyd cymdeithasol yr ysgol er mwyn cryfhau Cymreictod y disgyblion ac mae'n sicr fod y Cwrs Haf, a gynhelir bob blwyddyn ym Mis Awst, i'r disgyblion newydd, yn unigryw i Ysgol Rhydfelen.

Chwaraeodd y Gymdeithas Rhieni ran bwysig ac allwedol yn natblygiad yr ysgol o'r dyddiau cynnar hyd heddiw. Bu'r Gymdeithas yn gefn i'r ysgol drwy ei rhoddion gwerthfawr, yn llyfrau a chyfarpar, drwy dalu costau teithio i Eisteddfodau a mannau eraill, a thrwy fod yn bennaf gyfrifol am gynnal a chadw Cwrtycadno

Yn ystod y pum mlynedd ar hugain cyntaf yn ei hanes enillodd yr ysgol enw da iddi ei hun fel sefydliad addysgol lle cynhelir safonau academaidd uchel, lle gweithredir trefn fudeiliaeth effeithiol a lle mwynheir bywyd cymdeithasol cyfoethog. Mae llwyddiant arbennig ei chyn ddisgyblion yn dystiolaeth i'r seiliau cadarn a roddwyd i'w haddysg yn Rhydfelen.

Priodol fyddai dod a hyn o lith i ben drwy ddyfynnu englyn teyrnged W R Evans i Ysgol Rhydfelen

"Yn y Sir, hi yw'r seren - nawdd yw hon
Yn y ddu ffurfafen,
A dyfalwch Rhydfelen
Rydd wŷr da i Walia Wen."

# PLÂT RHYDFELEN

Fel rhan o ddathliadau penblwydd Ysgol Rhydfelen yn chwarter canrif oed eleni, penderfynwyd bathu plat a fyddai'n dynodi ac yn cofnodi'r ffaith. Mae'r darlun yn y llythyr hwn yn rhoi amcan i chwi o natur prydferth y patrwm a luniwyd gan bedwar disgybl o ddosbarth chwech. Nifer cyfyngedig yn unig ohonynt sydd ar werth a'i bris yw £15. Crochendy Felin Gwm, Caerfyrddin, sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r plat.

Pe dymunai unrhyw un o ddarllenwyr y Dinesydd ei brynu - gan gofio bod cysylltiad agos wedi bod rhyngom a Chaerdydd a'r Cylch yn nyddiau cynnar sefydlu Ysgol Rhydfelen - yna cysylltwch a'r ysgol trwy lythyr, neu alwad ffon. Cyfeiriwch eich ymholiadau at Mr. Dafydd Jones, y Prifathro neu at Mr. John Owen, Dirprwy Brifathro'r ysgol.

Mae'r galw yn uchel ac ofnwn mai'r cyntaf i'r felin yn llythrennol fydd hi gyda'r prynu!



Molly Curley yn dangos ei dawn yn siop Taflen yn ddiweddar.

# Colofn Shân Emlyn



Wel, bobol bach, am be y soniai y tro yma dywedwch? Ar y funud does gen i ddim syniad. Rhaid i rywbeth ddod o rhywle. Ond, does dim byd yn dod! Rwy'n siwr eich bod yn teimlo y dylwn roi'r gorau iddi. Ond, mi rydw i'n styfnig fel mul wyddoch chi!


Ydi hynny'n fai neu yn rhinwedd? Be ydi'r gwahaniaeth rhwng dyfalbarhad a styfnigrwydd? Ai gair clên ac anifyr am yr un peth yw'r ddau? Wn i ddim, ond, mewn sawl agwedd at fywyd, y mae'n rhaid cael elfen o'r ddau air. Dyna pam y mae Dafydd Iwan yn gallu canu "er waetha pawb a phopeth, ma' ryda ni yma o hyd". Ar lefel bersonol, ac fel cenedl, peth mawr ydi hunan hyder, ac heb fesur go dda o hwnnw, waeth i rhywun fynd i'w wely a dillad dros ei ben. Math o styfnigrwydd, dyfalbarhad, neu hyd yn oed haerllugrwydd yw hyn? Ie? Wn i ddim unwaith eto!

Yn ddiweddar bum yn siarad am y lle 'na - na chai mo'i enwi - yn Nhreorci, efo criw digon niferus a chlên iawn. Roedd cyfartaledd oedran y gynulleidfa yn weddol uchel, ac i mi, roedd yna rhyw dristwch fy mod yn siarad am edwino'r iaith yn Y Wladfa efo pobol o Gwm Rhondda, a'r gynulleidfa yn tystio eu bod hwythau yn profi tynged debyg. Teithio yno yn y car (a mi rydw i wedi mynd yn nerfus iawn o yrru yn y tywyllwch) a phasio sawl capel, un ai ar werth, neu'n cael eu ddadfeilio. Gan fy mod i wedi dechrau malu awyr yn sôn am ystyr dau air. Beth ydi'r gwahaniaeth rhwng "diwygiad" a "newid"? Beth ddylai ein hagwedd fod? Derbyn bod cyfnod yn dod i ben, a bod newid yn anochel 'ta be? Unwaith eto, wn i ddim.

Arwydd o ganol oed, mae'n rhaid, ydi bod syniadau delfrydau ac egwyddorion rhywun yn simsanu, a mod i mor ansicr rwan ag yr oeddwn i yn f'arddegau.

Ond dyna ni, thâl hi ddim i hel meddyliau. Mi fyddai'n meddwl yn amal, mai dawn fwya bywyd ydi synnwyr digrifwch. Diolch byth, mae hwnnw gen i.

Mi ges i alwad ffôn heddiw gan John Lane o Gwmafon i gadarnhau fy mod yn rhydd i feirniadu yn 'Steddfod gylch yr Urdd yng Nghastell Nedd ddydd Sadwrn. Tynais ei sylw mai hurt o beth bod y 'steddfod bob blwyddyn yn cyd daro â gêm rygbi ryngwladol. Mi ges i ymateb, ond nid yr un a oeddwn yn ei ddisgwyl. "Ti'n iawn Shân, dwi 'di bod yn meddwl sgwennu at yr W R U i ofyn iddyn' nhw newid y dyddiad"!!

**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**


CALENDR DATHLU CYFIEITHU'R BEIBL

Ebrill 29 - 30
Ysgol Ddeuddydd. Thema: 'Cyfieithu'r Ysgrythurau i'r Gymraeg 1588'. Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd. Cynllunydd: Dr J Gwynfor Jones.

Mai 5
Disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn perfformio eu rhaglen nodwedd, 'Mwy na Gair' yn yr Ysgol Isaf, Tyllgoed am 7.30 o'r gloch.

Mai 5
Ysgol Gynradd Gymraeg Pontsion Norton yn cynnal Cymanfa Ganu yng nghapel Sardis, Pontypridd am 6.30 o'r gloch.

Mai 21
Gorymdaith Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd trwy'r ddinas gan gynnwys gwasanaeth ger Neuadd y Ddinas. Ymgynull am 10.30; dechrau gorymdeithio am 11.00. Dewch yn llu!

Mai 22
Ysgol Gymraeg Sant Baruc, Y Barri yn cyflwyno pasiant yng nghapel yr Annibynwyr, Y Tabernacl, Y Barri am 6.00.

CYFARFOD DATHLU CYHOEDDI'R BEIBL CYMRAEG NEWYDD - BETHEL, PENARTH

Bore Sul y chweched o Fawrth cafwyd oedfa arbennig i ddathlu cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd. Trefnwyd y gwasanaeth ar y cyd rhwng aelodau Bethel a phlant Ysgol Gymraeg Penarth, dan oruchwyliaeth eu prifathro Mr Howard Goodfellow. Cafwyd eitemau gan gôr yr ysgol dan arweiniad Mrs Gill Lloyd ac roedd Cannwyll y Cymro yn ganolbwynt i'r holl weithgaredd yn yr oedfa.

## TEIP GO LEW!

Y mae Nans Couch un o ffyddloniaid Y Dinesydd wedi rhoi'r gorau i deipio'r Dinesydd ar ôl blynyddoedd o wasanaeth diflino. Diolchwn iddi am ei llafur cariad. Ar yr un pryd croesawn ferch ifanc i'n rhengoedd. O hyn ymlaen, Hannah Lyn fydd yn teipio'r papur. Y mae hi yn gweithio yn Siop Oriel, os oes gennych bwt i'r papur, galwch heibio a'i roi iddi. Bydd yn dda inni i gyd ddod i'w hadnabod.


EBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWC
BWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH
WCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH
CH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH
H HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HY
HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYS
HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSE
YSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBY
SBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYS
BYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSE
YSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEF
SEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBW
EBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWC
BWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH
WCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH HYSBYSEBWCH

HYSBYSEBWCH YN

Y DINESYDD

AM FANYLION A THALERAU
CYSYLLTER A
TONY COUCH — FFON: CAERDYDD
2 CRYSTAL GLEN — 753625 neu
Y WAUN — 615821 est 344
CAERDYDD


# CHWYDDO'R COFFRAU

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 1987-89, hoffem gydnabod ein cyfranwyr drwy gyhoeddi eu henwau. Dyma restr o'r rhai sy'n cyfrannu'n gyson drwy archeb banc. Gwelwch mai manylion moel iawn sy' gennym amdanyn nhw gan mai yn y ffurf hwn y daw eu henwau i ni ar adroddiad y banc. Dymuna'r Trysorydd ymddiheurio am ddiffyg enwau llawn ynghyd â'r methiant i gofnodi pa un ai gwrw neu fenyw sy'n cyfrannu! Yn ychwanegol at y rhestr hon, mae 'na chwech cyfrannwr anrhydeddus sy' (yn ôl y banc) yn berchen ar gyfenw yn unig! Os ydy eich enw chi fel cyfrannwr ar goll o'r rhestr isod, a fyddoch gystal â chysylltu â Richard Hall Williams (562472) er mwyn i ni gael eich cydnabod hefyd. Hoffai'r Trysorydd gael cyfeiriad pob un sy' ar y rhestr, os gwelwch yn dda. Diolch o galon i bawb am eu ffyddlondeb a'u cymorth. Drwy eich haelioni cyfranwyd £497 i'r Dinesydd yn ystod y flwyddyn.

Geraint Williams; I R Williams; D E W a E A Thomas; T Raymond Edwards; I G Jones; W M Rogers; R T Jones; Mrs Mallt Anderson; I W James; E V Evans; D Francis; K J Kane; R A a D R Evans; L Jones; D J a T M James; Syr Cennydd Traherne; M Price; J Sloman; J A Evans; E I Prytherch; J S M Rhys; E Jones; B Hall; G Robert; B Jenkins; A Humphreys; G Walters; J Evans; A Hughes; A Lewis; Barnwr Watkin Powell; H Davies; C Evans; G L Davies; A Jobbins; R Gwyndaf; E Rees; J B Jones; Parch W Vittle, A Couch; I M L Walters; D H Goodfellow; H R Evans; B a J M Thomas; R Hughes; R Thomas; T Arfon Williams; H E Hughes; E T Lewis; L J Evans; M L Jones; Y Barnwr Hywel ap Robert; W Cleaver; W G Parry; W M a M M Rosser; B a M V Evans; C H Thomas; E Humphreys; Dr D Davies; D J Williams; W a C E Richards; D R Hughes; E L Davies; G S Jones; G D a M V Pierce; J S Roberts; W J Thomas; W C E Thomas; D W a D L Lloyd; E D Jones; Mrs T Bevan; T A Williams; Hefin J Evans; Yr Athro A O H Jarman; J A Dyer; T E Parry; Dr E M Wiliam; E E H Jones; Parch Ifor Rees; D Roy Saer; G A Coles; D E Bulmer; A a E W Rowlands; G A a S W Coles; Rev D G Davies; Nansi Jones; G M Ruddock; R Griffiths; P A a S Gillard; A a D Griffiths; D N M a M Davies.

Mae ein dyled hefyd yn fawr i'r canlynol sy' wedi chwyddo coffrau'r Dinesydd gyda'u cyfraniadau hael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf - cyfanswm o £306.30. Diolchwn iddyn nhw gan wahodd llu o gyfeillion eraill i ddilyn eu esiampl y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau parhad ein papur bro.

W D Morgan; Dilys Morgan; Valmai Davies; Dilys Lloyd; Richard a Nia Hall Williams; Ruth Parry; Victoria Plucknet; David a Laurette Pope; Dr Meredydd Evans; T Gwynn Jones; Kynric a Bethan Lewis; W H a H M Morgan; Gwilym Roberts; W C a L Harpwood; Gwenllian Jones; Gwyn Jones; David a Heulwen Thomas; Emyr a Mary Currie Jones; W G a B M Roberts; Parch Raymond Williams; Lynn a Heulwen Jones; Gwilym a Carys Humphreys; Merfyn Griffiths; Cathi Jones; Sioned Penllyn, a pedwar sy'n dymuno peidio â datgelu eu henwau.



# FFOI I'R YNYS RADLON

## Cyfarchiad i'r Dinesydd

gan Ap Lewsyn

Ynys Tarawa,
Gweriniaeth Kiribati,
Canol y Tawelfor.

"Mi glywais awydd gynnau
Am godi cefn o'm gwlad
......................

A ffoi i ynys radlon
Yng nglowddwr Môr y De,
Lle llithiwyd pob afradlon
Doreth o dan y ne,
Ac uno a'r ddawns mewn celli
werdd,
A phlwc gitar yn cynnau cerdd

Prosser Rhys biau'r geiriau, ond maent yn mynegi profiad byw iawn i mi. Nid oes ond chwe niwrnod ers imi lanio, yng nghwmni Peter fy mab a'i deulu, o'r awyren fechan, hen-ffasiwn a adawodd Nandi yn Fiji am ddeg o'r gloch fore Sul ac a gyrhaeddodd ynys Tarawa am bump o'r gloch y prynhawn, wedi aros am ryw awr a hanner y ffordd yn Funafuti (Ynysoedd Tuvalu) Gall y rhai chwilgar ohonoch droi at fap go dda o'r Mor Tawel, ac yno, ar ganol y map, ar draws y Cyhydedd, ag eangderau'r Pasiffig yn ymestyn bron yn ddidor i bob cyfeiriad, y gwelwch yr ychydig smotiau bychain sy'n diriogaeth i Weriniaeth newydd Kiribati. Mae'r Wladwriaeth yn ymestyn o Christmas Island (neu Kiritimati yn awr) yn y dwyrain, gan gynnwys y Line Islands, heibio i Ynysoedd Kiribati, hyd at Ocean Island (Banaba) yn y gorllewin. Mor wasgaredig yw'r man ynysoedd sy'n cynnwys y wladwriaeth fel eu bod ag hawl tiriogaethol dros fwy o arwynebedd y cefnfor na'r un wladwriaeth arall yn y byd. Anhygoel - ond gwir!

Atol o gwrel yw Tarawa, ar ffurf triongl, lagwn bas yw'r canol a rhesi o ynysoedd hirgul sy'n ffurfio dwy ochr o'r triongl; nid oes ynysoedd ar y drydedd ochr, ond yno mae'r lagwn bas yn plymio yn sydyn i ddyfnder mawr. Yn y rhan fwyaf poblog, sef De Tarawa, un ochr i'r triongl, maent wedi codi cobiau i gysylltu'r man ynysoedd a'i gilydd i wneud un ynys 'fawr' yn ymestyn am 18 milltir, ond sydd a'i lled yn amrywio rhwng chwarter milltir a chanllath (a'r cobiau wrth gwrs, ond lled dwy lon, i'r ycaydig draffig).

Echdoe, bum yn eistedd o dan maneaba'r tŷ, sef math o batio a thô gwellt iddo, yn gwylio'r llanw yn dod i mewn. (Mae'r tŷ o fewn ychydig droedfeddi i ymyl y banc o dywod sy'n dynodi eithaf y llanw). Glas dwfn oedd lliw'r môr draw, ond gwyrdd golau oedd y tonnau ewynnog oedd yn ymhwyddo dros ymyl y riff, ganllath i ffwrdd a rhedeg yn rhes ar ôl rhes cyrliog bron at fy nhraed. Arian bron, oedd lliw'r tywod, a gwyrdd tywyll y palmwydd tal sy'n tyfu hyd at ymyl y môr, pob un a chlwstwr o gnau mawr a'u plisgyn blewog, ar ben y boncyff moel.

Ond nid yw'r baradwys yn berffaith. Mae rhadlonrwydd y bobl yma, ydi, a'r harddwch breuddwydiol. A mae swn y gitar a'r gan a'r ddawns yma hefyd. Ond ers deuddydd bu hi'n glawio'n drwm, peth anarferol iawn yn ôl y trigolion. Nid yw ambell gawod yn ddiarth, ond y rheol yw ei bod hi'n clirio ar ôl awr neu ddwy, a'r wybren yn glasu wedyn, a'r haul mor danbaid ag erioed. Un canlyniad i'r glaw di-dor yw fod lleithder yr awyr yn gant y cant. Mae'r lleithder yn uchel iawn bob amser, ond ar hyn o bryd nid yw dwr na chwys yn anweddu; mae hi'n amhosib cael na dilledyn na thywel sych, a phawb o'r herwydd yn bur anghysurus, ond newyddian fel myfi yn fwy na'r hen ddwylo.

Nid yw'r man bryfetach asgellog ddim yn ychwanegu fawr at ddarlun y baradwys, chwaith. Cefais fy mhigo gymaint yn ystod y nosweithiau cyntaf fel y bu raid imi gilio y tu ol i lenni moscito i gysgu, er nad yw gweddill y teulu yn teimlo'n angen. Mae hi'n amlwg fod y pryfed yn gwerthfawrogi 'gwaed newydd'.

Mae mwyafrif y brodorion o hyd yn byw mewn cabanau gwellt, a'u lloriau ar lwyfan, troedfedd neu ddwy uwchlaw'r pridd. Hyd y gwelais, mae'r ochrau yn agored i'r byd, ond deallaf fod ganddynt sgrinau o ddail palmwydd wedi eu trefnu yn gywrain fel y gellir eu gollwng i lawr wrth dynnu llinyn (a hwnnw wedi ei nyddu o blisgyn y coconut).

Yn naturiol, mae'r môr a'i lanw a'i drai yn bwysig ym mywyd yr ynyswyr. Maent o hyd yn dibynnu ar bysgota am ran, beth bynnag, o'i cynhaliaeth. Mae'r môr yn heigio o bysgod bach a mawr, a gwelir aml i ganŵ brodorol allan ar dywydd teg. Mae llawer o ddiweithdra - a does dim tâl i'r di-waith. Maent yn ddibynnol ar eu tylwyth - mae cysylltiadau teuluol yn gryf ac yn eang yma. Bu amser pan oedd y rhan fwyaf o'r teuluoedd yn hunangynhaliol, yn hel eu tamaid o'r mor a'r coed 'breadfruit', a'r cnau coco, a gwreiddyn a dyfir mewn pydewau yma ac acw, o'r enw 'babai' ag sy'n cynnwys tipyn o Fitamin C. Ond bellach mae hi'n llai o drafferth i brynu bwyd tun o'r siop. Mae economi ariannol yn prysur ddisodli yr hen economi hunangynhaliol. Daw'r arian o ddwy brif ffynhonnell, y Llywodraeth (sydd mewn enw yn annibynnol ond sydd yn dal i ddibynnu ar grantiau sylweddol o Brydain ac o wledydd fel Awstralia, Seland Newydd a Japan). Hefyd mae'r ynysoedd yn allforio llawer o'i dynion ifainc i wasanaethu fel morwyr ledled y byd, a rheiny yn anfon arian yn ol i'w teuluoedd. Mae ambell gwmni llongau, yn enwedig o'r Almaen yn cynnal asiant yn Nharawa i ricriwtio'r dynion ifainc.

GWYN LEWIS DAVIES

Ynys Tarawa

Gwener 26 Chwefror 1988

Mae tristwch yng nghartref Tebakai, y wraig drws nesaf, heddiw. Aeth Tebakai, ei gŵr, allan yn ei ganŵ ddoe i bysgota gyda dau gyfaill. Ond daeth neithiwr, a hwythau wedi methu dychwelyd. Mae mynd i bysgota yn fenter barhaus ym mywyd y bobl syml yma. Bob blwyddyn mae rhai yn mentre allan ac ni chlywir mwy amdanynt, ond oherwydd eu medr trafod eu cychod bregus, dod yn ôl ag helfa dda yw'r hanes arferol.

Mae llawer enghraifft o rai a dybid eu bod wedi trengu yn llwyddo rywsut i gaw'r canŵ i nofio yn y tonnau garw ac i fyw am wythnosau lawer ar bysgod ac hynny o law a fedrant ei gasglu, ac yna ar ôl wythnosau ynghanol yr eangderau o fôr diderfyn, yn eu cael eu hunain ar ryw draeth filoedd o filltiroedd i ffwrdd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, credid fod Binata Tetaeka wedi boddi, ynghŷd â thri arall a aeth gydag ef i bysgota. Mae'r ffaith ei fod hefyd yn Weinidog yn y Cabinet yn arwyddocai pa mor werinol yn wir yw'r Weriniaeth newydd hon. Bu'r pedwar ar goll am wythnosau lawer, ond yn y diwedd daeth newydd eu bod wedi llwyddo i gadw'n fyw ac wedi glanio ar draeth yn Samoa, dros fil o filltiroedd i ffwrdd.

Ac mae enghreifftiau tebyg am rai yn cyrraedd tir yn y Solomons, yn Ynysoedd Marshall ac yn y Philippines ar ôl i'w perthnasau anobeithio a galaru am eu colli.

Ac oni fu hanes ryw ychydig o flynyddoedd yn ôl am ryw deulu Robertson o Brydain, ac un Robin Williams gyda hwy, a'u llong fechan yn cael ei thyllu gan forfilod tua Ynysoedd y Galapagos oddiar arfordir De America? Ac oni fu iddynt lwyddo i gadw'n fyw mewn un cwch rhwyfo, trwy ddal ambell bysgodyn a durtur môr, a chasglu dŵr glaw pan ddoi cawod, hyd nes iddynt, ar ôl nawdeg o ddyddiau! a llawer o ddioddefiadau cael eu harbed gan long o Siapan, ar ei ffordd i Banama?

Newyddion da i gloi. Tridiau ar ôl ysgrifennu'r uchod daeth neges radio fod Teboaki a'i gyfeillion wedi llwyddo i lanio ar ynys gyfagos; llai na chan milltir i ffwrdd, ac y byddant yn dychwelyd yn eu canŵ pan fydd y môr yn dawelach.

☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆☆

San Fransisco
California

3 Mawrth 1988

Yr wyf bellach ar fy ffordd adref, ond yn ymdroi yma ac acw ar y ffordd. Taith digon tawel o Terawa i Fiji - yr awyren fechan yn codi o Tarawa am 7.30 y bore, yn glanio (ar laswellt) ar Ynys Funafuti (sydd yn ddim ond rhimyn cul o dir ynghanol eangdir o fôr) am hanner awr i ail-lenwi'r tanwydd ac yn y diwedd yn cyrraedd Nandi yn Fiji tua 3.30 y prynhawn. Nid oedd awyren Quantas i Honolulu yn gadael tan 11.00 y nos a chymerais ystafell mewn gwesty cyfagos i orffwys ac aros y daith-dros-nos. A da oedd imi wneud. Pan ddes yn ôl i'r maes awyr am ddeg o'r gloch yr oedd y lle yn fwrlwm anesmwyth, a channoedd o deithwyr yn stryffaglio â'u paciau yn neuadd gŵyr y tollau. Y rheswm oedd fod y swyddogion yn mynnu agor pob pecyn ac yna yn ei selio â saith sel (o leiaf). Un llecyn golau oedd - imi daro ar ŵr a gwraig o Gymry Cymraeg ynghanol y berw mawr. Deallais mai o Aberystwyth yr oeddent ond cyn inni ddod i nabod ein gilydd yn iawn cipiwyd hwy eto i ganol y berw a chollais gyswllt â nhw. Ond gwelais hwynt eto am ennyd wedi cyrraedd Honolulu. Sefyll yr oeddynt wrth roundabout y paciau a galwasant i ddweud eu bod wedi gweld fy enw ar fy mhaciau i, a'u bod eisoes wedi rowndio dair gwaith. Diolchais iddynt a meddiannais fy eiddo. Ond nid oedd amser gennyf i gynnal sgwrs pellach am fod awyren Quantas yn hwyr yn cyrraedd Honolulu, a roedd delay (beth bynnag yw hynny yn Gymraeg) mawr oherwydd yr oedd swyddogion yr Unol Daleithiau yn Honolulu yn craffu yn fanwl i gadw pob dihyryn allan o wlad yr addewid. Holwyd fi ynglŷn â fy enw canol i sicrhau mai nid Llywelyn oedd yr enw. Tybed a oes yna ryw Gwyn Llywelyn Davies, neu ryw Gwyn Llywelyn efallai, sy'n wrthodedig gan awdurdodau America, am resymau sydd iddyn nhw yn ddigonol?

Nodyn o ddiddordeb? Yr oeddwn wedi treulio dydd Sadwrn yn teithio i Fiji ac yn Fiji. Ond wedi teithio dros nos i Honolulu ffeindiais fod dydd Sadwrn wedi bod ar daith y ffordd arall rownd y byd ac wedi newydd gyrraedd Honolulu. Saith o'r gloch y bore oedd hi yno a dydd Sadwrn ond yn dechrau. Dyna ennill yn ôl y dydd Sadwrn a gollais yn 1977 wrth deithio o Honolulu i Fiji a neidio yn syth o nos Wener i fore Sul.

Cofion

Gwyn Lewis Davies


**Huw Roberts** BSc, ACMA
*Cyfrifydd*

Treth
Cyfrifon
VAT

Buddsoddi
Pensiynau
Morgeisi

*"Presywylfa",*
*28 West Hill Drive,*
*Llantrisant,*
*Morgannwg Ganol*
*Ffôn Llantrisant 224182.*


Dechreuodd Sarah Rosser o Gwmdar ar ei swydd fel Clerc yn Adran Gyllid S4C. Cyn hynny bu'n gweithio am dair blynedd yn y Gwasanaeth Sifil. Fel cyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen a ddaw o aelwyd ddi-Gymraeg, mae Sarah yn croesawu'r cyfle i weithio mewn awyrgylch, a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

CYLCH CINIO'R MERCHED

Mae'r cylch yn mynd o nerth i nerth! Nos Iau, 10 Mawrth cafwyd y noson orau eto gyda bron i drigain yn tynnu i Westy'r Phoenix i fwynhau dwy wledd - cinio da iawn yn gyntaf ac yna gwledd o ddifyrrwch a phleser pur wrth wrando ar Caryl Parry Jones yn trafod 'y dyn perffaith' gyda Lavinia a Glenys a'r criw! Noson ardderchog a phawb yn edrych ymlaen at y nesaf ar yr ail ddydd Iau ym mis Mai. Dewch yno i ymuno a'r Cadeirydd, Owenna Hopwood, i fwynhau'r gwmnïaeth, ac i hybu'r rhif tuag at y cant.

# O'R GANOLFAN

Cynhaliwyd Eisteddfodau Urdd y Sir yn ystod y mis diwethaf, llongyfarchiadau i pawb a fu'n cystadlu a phob lwc i'r rhai buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Drenewydd. Bydd rhai o ysgolion yr ardal yn cystadlu yn yr Wyl Chwaraeon yn Aberystwyth yn ystod y mis nesaf, sef: Iolo Morgannwg yn cystadlu yn y Rygbi, Marlborough yn y Pel Rwyd a Cogan yn y Pel Droed, pob lwc iddynt.

Cafwyd noson lwyddiannus yn y Ganolfan yng nghwmni Dafydd Iwan, gyda elw'r noson yn mynd tuag at y gwaith o adgyweirio'r adeilad.

Hoffwn ddiolch i'r Parch Geraint Tudur am ddod i siarad a phlant yr adran am y gwaith o fwydo crwydriaid y ddinas.
Bu criw adran Llandaf yn brwydro yn erbyn adran Radyr mewn cwis "ymarferol" a drefnwyd gan Mr John Morgan. Diolch hefyd i Alison Rees am drefnu arddangosfa o ffrwythau egsotig, a rhoi cyfle i'r plant flasu a dyfalu enwau'r gwahanol ffrwythau.

Darganfyddwyd yn ystod trip yr Uwch Adran i'r Tyllgoed taw nid Eddie Edwards yw'r unig un sy'n methu sgio!
Gobeithio bod gwell peldroedwyr yn yr Aelwyd na sydd o sgiwyr yn yr Uwch Adran gan fod tim pel droed yr Aelwyd yn chwarae yn ystod y mis nesaf er mwyn sicrhau lle yn rownd terfynnol Cwpan Pantyfedwen, pob lwc iddynt.

Llun: Trip yr Adran i lan y môr




**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

Bu Muriel Davies am flynyddoedd yn brifathrawes Ysgol Gynradd Rhydypennau. Yma mae'n cofio am ddyddiau fu mewn un rhan o'r ddinas.

# SULGWYN

**SULGWYN AMSER MAITH YN ÔL**

Byddai'r Sulgwyn yn bwysig iawn i ni'r plant yn y tridegau. Bob wythnos ar ôl y Nadolig roedd rhaid i bawb fynd i astudio yn y dosbarth Ysgol Sul er mwyn cael digon o farciau i roi hawl i ni ymuno â'r 'Whitsun Treat'

Wythnosau cyn yr Ŵyl byddai ein mamau yn gwnio ac yn gwau'n brysur dros ben i baratoi dillad newydd sbon ar gyfer y dydd Sul. Roedd rhaid mynd â ni i siop Donald Knights yn Nhreganna i ddewis hetiau gwellt i'r merched a chapiau i'r bechgyn, yn ogystal â menig gwynion lês ac wedyn, o'r siop gyferbyn, sandalau i bawb neu esgidiau gwynion sef 'daps'.

Rongiai awyrgylch gyffrous dros ein stryd ar ôl cinio dydd Sul. Deuai'r plant i gyd o'r tai i'r stryd yn gwisgo'u dillad newydd sbon.

Nid chwarae oedd ein bwriad ond yn hytrach sefyll mewn grwpiau neu gerdded yn hamddenol i fyny ac i lawr y stryd er mwyn rhoi cyfle i bawb ein hedmygu. Roeddem mor falch! Sôn am 'Vanity Fare'!

Trannoeth, deuai i blant ein teulu ni siom fawr. Teithiai'r plant eraill i gyd o'u capeli, neu'r Gospell Hall neu'r Salvation Army mewn loriau allan i ganol y wlad. Dyna brofiad hudol oedd hwnnw.

Ond beth amdanom ni?
Roedd rhaid cerdded mewn gorymdaith enfawr gyda'r croesau a'r baneri o'r eglwys, yn ein harwain; i lawr Grand Avenue, dros Heol y Bont-faen i'r hen faes rhedeg. Yna trefnid chwaraeon o bob math gyda gwobrau i'r buddugwyr. Enillais unwaith wats arddwrn am redeg mewn ras ganllath.

Safai stondinau o bob math o gwmpas y cae ond roedd pawb yn disgwyl i ni, y plant, aros yn y stondin enfawr ble y safai'r bobl oedd wedi dod i weld y rasys ceffylau tra y cyrhaeddai ein rhieni.

Roedd te ar gael i bob plentyn - bara a jam, cacen ffrwythau, cacen madeira a diod lemon; popeth yn rhad ac am ddim. Ac o! anghofiais am y fynsen!

Yn ein cartref nid oeddem yn arfer bwyta dim ond pethau a wnâi fy mam. Roedd yn gogyddes arbennig o dda. Gwnâi fisgedi, cacennau, pob math o bwdin, jam a phicls; ond ar yr adeg hon meddyliem ni'r plant bod rhaid bod yn gyfoethog cyn bwyta bisgedai a chacennau o siopau! Ni werthfawrogem o gwbwl ddoniau ein mam oedd bob amser am roi dim ond y gorau i'w theulu.

Yn y prynhawn cyrhaeddai gweddill ein teulu. Roedd rhaid i Dada ennill cneuen goco ac i Mam redeg y ras y mamau. Treuliem i gyd amser go iawn. Dydw i ddim yn gallu cofio cymylau neu oerfel neu law, dim ond haul yn gwenu. Rhyfedd iawn hynny o achos yn ddiweddarach yn fy mywyd, er fy mod i'n teithio mewn lori gyda phlant fy chwaer, byddai'r tywydd yn aml yn oer, yn wlyb ac yn ofnadwy, heb na swyn o fath yn y byd i'r diwrnod.

Efallai mai'r ffaith fy mod wedi tyfu'n hŷn oedd yn gyfrifol am y gwahaniaeth!



Dyma lun o'r Fedal Arbennig a gynhyrchwyd gan y Bathdy Brenhinol i ddathlu pedwar canmlwyddiant cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Gwnaed y Medalau o aur 9 carat, neu arian neu efydd hardd.

# Menna'n Manylu

Mae cyfnod y Grawys y tu cefn i ni erbyn hyn a channoedd a miloedd o bobol ifanc wedi ymprydio neu fwyta llai i godi arian at wahanol elusennau ac achosion da. Rhaid i mi gyfadde' na wnes i ddim trîo gan fod gennai ormod o feddwl o'm bol. Ond, wir, dwi'n amal yn teimlo'n euog o'r holl oferedd sy'n cael ei daflu i'r cŵn a'r brain. Felly, dyma geisio cyfiawnhau hynny trwy'r darn barddoniaeth yma gyfansoddes i pan oedd Bob Geldoff ac Osian Wyn Jones yn weithgar iawn dros y newynnog.

**NEWYN**

Draw'n bell mewn gwlad o dlodi, ddiffaith, boeth
Fe drig trueiniaid prudd ym mhaith Sudan,
Gan wisgo carpiau llwm ar gorffoedd noeth,
A gorwedd dan yr haul mewn cystudd gwan.
Mae gweddi'r rhain yn daer ac O! mor drist,
A hwythau'n gwybod dim am Iesu Grist.

Dan godau'r llygaid mawrion, gwynion, pŵl
Mae pryfaid lu yn sugno'r esgyrn main,
A minnau yma'ng Nghymru'n gymaint ffwl
Yn taflu briwsion prin i'r cŵn a'r brain.
Mae'r rhain yn crafu gwaddod powlen glai
Mewn gobaith gwneud eu boliau'n fymryn llai.

Dan groen ac osgyrn brau y gorthrwm hyll,
Asennau a gwythiennau sydd mor glir,
A choesau fel dwy ffon o goeden cyll,
Yn llusgo cerdded ar y llychlyd dir
I gario dŵr o ffynnon fach gerllaw
Er mwyn cymysgu'r blawd yn llaid a baw.
Mae'r gwragedd sy'n rhy wan i fynd yn bell
Yn crafu'r tywod am wlybaniaeth dŵr,
Gan edrych tua'r nen am dywydd gwell
I leddfu afiechydon ambell ŵr.
Rhy hwyr chwistrellu'r moddion prin i'r croen -
Daeth angau du i leddfu'r farwol boen.

Mor eiddil ydyw'r plant o dan eu loes
Wrth grio'n dawel am eu tad a'u mam;
Fe'u hamddifadwyd hwy cyn dechrau oes -
Paham eu bod yn dioddef cymaint gam?
Fe ddylem ninnau yma ddiolch mwy
Nad ni sy'n goddef poen yr aflwydd glwyf.

Daw deigryn gofid lawr fy ngrudd yn awr,
Wrth glywed cri ddolefus ambell frawd
Yn llipa yn eu carthion ar y llawr,
Yn ymbil ar Samariad gynnig blawd.
Mae'r boliau mawr yn erfyn am gael bwyd
I ddod a gwrid yn ôl i'r bochau llwyd.

Gormodedd sy'n ein bywyd ni O Dduw!
Rho fwy i'r di-ymadferth, gwelw, main;
A helpa Osian gydag Arian Byw
I gynnig ymborth i adferu'r rhain.
Fel Cristion, rhoddwn ninnau oll ynghyd
Rhyw gyfran fach i wella cyni'r byd.

MENNA MEDI

# CARREG ATEB

Gwrandewais ar raglen AROLWG gan Vaughan Hughes nos Lun, Mawrth 14eg, pan 'roedd Dr. Dafydd Roberts yn pardduo cymeriad Chwarelwyr Cymru yn y dau ar tri degau. Dywedodd eu bod yn feddwyn ac yn gamblwyr. Ar ben hynny dywedodd nad oeddynt yn ddiwylliedig a bod eu cyflogau yn ddigon iddynt allu buddsoddi rhan helaeth o'u harian mewn cwmniau llongau.

Chlywais i erioed y fath gelwydd noeth. Cefais fy magu yn fab i chwarelwr yng nghanol pentref bach Talsarnau yn union lle arhosai bws y chwarel ac arllwys ei lwyth blinedig a llychlyd. Yn eu plith oedd fy nhad, dau daid, pump ewythr, brawd yng nghyfraith a'i dad yntau - Mr. Tomi Williams.

Gellwch feddwl mor agos oeddwn at fywyd y chwarelwr.

Welais i erioed ddiferyn o'r ddiod feddwol yn mynd dros wefys fy nhad na fy nau daid. Roeddynt yn llwyr ymwrthodwyr ac er parch iddynt, ni fum erioed dros drothwy y Ship Aground Hotel yn y pentref.

'Roedd fy nhad a Tomi Williams yn cadw'r "Band of Hope" yng ngapel Soar a byddai holl blant y pentref o bob enwad ac yn ddienwad yn tyrru yno gan gymaint y gwefr i glywed y straeon difyr. Byddai'r plant yn dweud yr addewid i beidio ac yfed y ddiod feddwol.

Er teithio'r byd ni welais cystal Cristnogion na dynion agosach at eu lle, na fy nhaid Evan Williams, Gwndwn a fy nhaid Rhys Jones sydd hefyd yn daid i gynhyrchydd y rhaglen Eifion Lloyd Jones, ac yn daid i Alun Rhys, (Radio Cymru). Clywais lawer fel y byddai yn ceryddu y chwarelwyr yn y caban os byddai rheg ar eu gwefys. Byddant bob amser yn dweud gweddi cyn bwyta ac yn trafod llenyddiaeth Cymru, a'r Beibl.

O lle cafodd Dr. Dafydd Roberts y syniad fod byd y chwarelwr mor gyfoethog pan oedd cyflog 'wrth y dydd' ond dwy bunt a phump swllt. Pan ddeuai y creigwyr i gerrig da, byddai'r stiwardiad yn torri'r fargen i lawr ac erbyn talu criw y wagen, criw'r bwrdd llifio, y naddwyr a'r rhybelwyr bach, a thalu am naddu'r cynion, am y canwyllau, y clai a'r powdwr saethu, doedd fawr ar ol ar ddiwedd y mis.

Deuai fy nhad adref a rhoi y cyfan ar y bwrdd i fy mam a hithau yn prynu iddo un owns o Faco'r Bryniau a blwch o fatsus i oleuo'r cetyn a chanhwyllau'r chwarel am yr wythnos.

Rhoddai hefyd ddau bisyn chwech mewn dwy amlen at achos y capel. Clywaf yn awr y trysorydd, William Williams (chwarelwr), 'yn ei lais hirwyntog o' yn dweud "chwech a chwech" ar gyfer bron bob un o'r eglwys yn ei adroddiad chwarterol o'r cyfraniadau at y capel, ac ni byddai ond rhyw un 'heb gyfrannu.

A wyr Dafydd Roberts tybed, beth yw bod yn llwglyd? Gafodd o erioed hanner wy wedi ei ferwi i frecwast a'i fam yn mynd heb ddim? Gafodd o erioed ddim ond bara a llaeth enwyn i ginio Sadwrn ar ol dwad adre'n llwglyd o fod yn cario coed drwy'r bore? Fu raid iddo fwyta tatws a llaeth y moch i ddigoni ei newyn? Ysgwn i a ydyw yn gwybod beth yw blas cawl pen dafad? Rwyn siwr na wyr beth ydi 'Potes Maip'. Er hynny roedd ein 'cwsg yn felus a'r gwely yn esmwyth a chawson ein dilladu yn ddestlys gan waith llaw fy mam. Gweithia'r injan wnio 'overtime' a mam yn llosgi olew y lamp i oriau bach y bore i ennill ychydig geiniogau am drwsio dillad i lu o weision ffermydd y fro.

Buddsoddi ddwedsoch chwi, Dr. Dafydd Roberts? Wedi rhoi angen un rhwng y chwech ohonnom, a cadw pedwar ohonnom ar yr un pryd yn ysgol Ramadeg 'Bermo, doedd dim ar ol. Anodd iawn oedd cadw dau ben llinyn ynghyd. Cofiaf am un Nos Wener, mae mor fyw yn fy ngof fel mae ias yn mynd trwof ac rwy'n teimlo i'r byw y tro a'r gofid am sefyllfa fy rhieni annwyl. Nid oedd gan fy mam ddigon i dalu'r unarddeg ceiniog, pris dyddiol bws y chwarel. Aeth y ddau drwy bob llestr ar shilf ben tan ac ar y dresel a thrwy bob dror yn y ty ac hyd yn oed i berfadd yr unig gadair esmwyth oedd ganddom yn y ty - cadair fy nhad. Cyfri'r ceiniogau a'r dimeiau yn ara deg - saith ceiniog yn unig a deigryn yn llygad fy mam pan ddywedodd fy nhad wrthi ei fod yn rhy falch i ofyn i'w dad am fenthyg y grot arall. Hithau yn dweud "Wel gofynna i Robin fy mrawd," a fy nhad yn dweud, "Be sa Robin yn fyr hefyd?" Dyna mor galed oedd hi Dr. Dafydd Roberts, ac er y demtasiwn i redeg bil misol yn y Co-op dros y ffordd, medrodd mam rywsut i gadw'r gyllideb yn wastad gan fyw heb ddanteithion a phleserau a medru thalu ei ffordd. Yn aml dywedodd, "Rydych wedi cael eich magu yn ddigon tlawd, ond yn barchus ac yn drwsiadus a diolch i Dduw y gallaf gerdded drwy'r pentre yma gyda dimau ar ben fy mys ac ni all unrhywun fynd a hi oddiarnaf."

Nid oedd gwyliau o gwbl, ond Dydd **Gwyl Llafur** a byddai y diwrnod hwnnw yn cael ei dynnu o'r cyflog. Bu rhaid i minnau weithio bob gwyliau ysgol, yn cyfrif stoc y Co-op gwyliau'r Nadolig, yn y Golf yn Harlech neu ar un or ffermydd am bump swllt yr wythnos y gwyliau arall. Rhaid oedd cadw'r arian yn ofalus i helpu fy mam i brynu dillad ysgol.

Rwy'n credu bod digon o dystiolaeth yma i brofi nad yw y Dr. Dafydd Roberts yn gwybod dim byd am beth mae yn siarad.

R. Emrys Jones.

# FFILM

"ROBOCOP" (tystysgrif 18)

Fe`n cyflwynir i gymdeithas reit afiach yn y ffilm yma gan Paul Verhoeven. Detroit y dyfodol agos yw`r lleoliad. Mae torcyfraith a thrais yn epidemig yn ôl pob golwg ac mae rhyw lond dwrn o heddlu yn ymdrechu i gadw yr argae rhag torri yn gyfangwbl. Plismon sy`n gweithio mewn ardal arbennig o`r ddinas yw Murphy (Pete Weller) ac ar ei ddiwrnod cyntaf mae`n cael ei saethu`n ddarnau (yn llythrennol) gan giang o ladron sadistaidd. Yn wyrthiol mae`n dal yn fyw ac fel rhan o arbrawf mae cwmni sy`n arbenigo mewn technoleg i gynorthwyo`r heddlu yn ei ailadeiladu fel `Cyborg´ (hanner dyn a hanner robot) - `Robocop´ - y teitl. Mae`n ymateb fel cyfrifiadur i bob trosedd. Rhoddir cyfle i`r dihirod ildio`n heddychlon ac yna wedi iddynt wrthod cânt eu difa`n hollol ddidrugaredd. Mae`n arwr yn y gymdeithas ar ôl ei ymddangosiad cyntaf ond wrth i reddfau dynol Murphy ymwthio i`r wyneb mae penaethiaid y cwmni a`i hadeiladodd yn ceisio ei ddinistrio.

Techneg fideo a theledu `trendy´ yw un o brif nodweddion y ffilm hon. Fe welwn ddarllenwyr newyddion yn sylwebu ar y prif ddigwyddiadau ac am ryfeloedd gyda hanner gwên ddireidus ar eu hwynebau drwy`r amser. Yn yr hysbysebion rhwng eu hadroddiadau gwelwn deulu yn chwarae gêm fwrdd anturus ar aelwyd gartrefol. Enw`r gêm? `Nuke `Em!´- a`r slogan, yw: `Get them before they get you!´ Mae`r stori ei hun yn un o``r rhai mwyaf treisgar a welais ers tro. Does dim mwy na phum munud o amser yn pasio heb fod brwydr waedlyd yn digwydd ar y sgrîn. Mae`r gynnau`n tanio, y bwledi`n rhwygo drwy gyrff a`r gwaed yn tasgu. fel petaent yn atalnodi`r cyfan. Yng nghanol y dinistr fodd bynnag fe gawn sylwadau hynod o dreiddgar a gwawdlyd am gymdeithas yn America a dulliau y cwmniau mawr. Mae Verhoeven wedi llwyddo yn wyrthiol i gadw yr elfen o gomedi ddychanol yn finiog ond yn y cefndir drwy`r cyfan. Does dim cyfle i ymlacio o gwbwl wrth wylio hon; mae hi`n dilyn yn nhraddodiad lluniau fel The Terminator yn hyn o beth ond gyda mwy o hiwmor crafog a sgript dipyn gwell. Cerddoriaeth symffonig ardderchog Basil Poledouris sy`n ffurfio`r trac sain ac mae`n ehangu effeithiolrwydd y ffilm yn fawr. Wedi dweud hyn fodd bynnag mae`r hen gwestiwn yn codi ei ben. A yw trais ar raddfa fel yma yn angenrheidiol i fod yn gyfrwng dychan? Yn achos y ffilm yma roeddwn yn amau braidd. Adloniant ardderchog, cofiwch ond `over the top´ braidd mewn llawer rhan.

Dafydd Jones

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

gan EIRY PALFREY

ARIES
Gall hwn fod yn fis dryslyd iawn yn enwedig yn y gwaith, bydd pethe'n rhedeg fel watch un diwrnod ac yn llawn rhwystrau ddiwrnod arall. Gochelwch rhag ddamweiniau. Ond bydd eich meddwl yn effro ac yn fywiog iawn, gan ei gwneud hi'n hawdd i chi fynegi'ch teimladau. Ceisiwch beidio â cholli'ch tymer na brifo neb.

TAURUS
Dylai hwn fod yn gyfnod ardderchog i chi fynegi'ch hun, yn enwedig yn greadigol neu yn eiriol. Os oes angen trafod rhywbeth pwysig arnoch gyda rhywun mewn awdurdod nawr yw'r amser i wneud hynny. Dylai fod yn gyfnod ffodus i chi yn ariannol hefyd, ond peidiwch â gorwario chwaith.

GEMINI
Fyddwch chi ddim yn teimlo mor gymdeithasol ag arfer y mis hwn, efallai bydd angen encilio arnoch i adnewyddu'r bateriau. Bydd problemau dwfn ac athronyddol yn eich poeni'n fwy nag arfer ond mi fydd plymio i'r dyfnderau yn help i ehangu'ch gorwelion. Byddwch ar eich gwyliadwriaeth yn y gwaith, mae rhywun am eich gwaed.

CANCER
Mi fyddwch chi'n aflonydd iawn y mis hwn, efallai ei bod hi'n bryd meddwl am symud tŷ, neu swydd. Neu efallai bydd rhywun pwysig yn symud allan o'ch bywyd. Tua chanol y mis mi fydd hi'n amser da i wneud penderfyniadau ymarferol ynglyn â'ch gyrfa, ac os gollwch chi'r cyfle i wneud hynny nawr fe allech ddifaru maes o law.

LEO
Mae angen i chi glirio unrhyw gamddealltwriaeth sydd wedi codi rhyngoch chi â pherthynas neu gymydog unwaith ac am byth. Mae hwn yn fis ardderchog i deithio neu i ddysgu sgil newydd. Ar ôl yr ugeinfed ceisiwch ganolbwyntio o ddifri ar eich gyrfa. Defnyddiwch yr ynni sydd gennych ar hyn o bryd i symud ymlaen ac i fyny!

VIRGO
Mae'n bosib y bydd problem ariannol neu gamddealltwriaeth yn codi rhyngoch a'ch cymar neu'ch partner mewn busnes. Bydd rhaid trafod y problemau er mwyn eu datrys, felly peidiwch a cheisio eu hosgoi. Daw pethau'n well erbyn diwedd y mis pan fyddwch yn teimlo'n greadigol iawn, ac yn llawn ynni, a syniadau gwreiddiol.



LIBRA
Mae llawer o bethau yn eich poeni ar hyn o bryd, yn y gwaith, ymysg eich ffrindiau, ac yn y cartref. Peidiwch a'u hanwybyddu gan obeithio yr ân nhw i ffwrdd. Wnân nhw ddim, a bydd rhaid i chi gorddi'r dyfroedd ychydig cyn yr aiff hi'n rhy hwyr. Rydych yn hynnod o greadigol ar hyn o bryd, a mae gobaith am garwriaeth newydd gyffrous erbyn diwedd y mis.

SCORPIO
Fyddwch chi ddim yn berson hawdd iawn i weud â chi y mis hwn, yn mynnu dadlau â phawb, ac yn styfnig hefyd! Mae'r gorffennol yn dal i fyny â chi, a dim ond chi - a neb arall - sydd ar fai. Ceisiwch wneud rhywbeth positif ac ymarferol i osgoi'r teimladau negyddol hyn - spring clinio, neu baentio'r tŷ efallai.


SAGITTARIUS
Mis rhamantus iawn! A mis lwcus dros ben yn enwedig yn ariannol. Efallai y clywch newyddion am faban newydd tua chanol y mis. Ond erbyn yr ugeinfed bydd angen i chi ganolbwyntio ar eich gwaith a chwilio am ddyrchafiad neu newid eich swydd. Mae gennych y gallu nawr i ddangos eich dygnwch a'ch creadigrwydd i rai mewn awdurdod.

CAPRICORN
Mae'n bryd i chi edrych o ddifri ar eich gyrfa. Ydych chi'n mynd i'r cyfeiriad iawn? Beth yn hollol hoffech chi gyflawni mewn bywyd? Dyma'r amser i ddechrau ar y newidiadau os oes rhai i fod. Fe allai pethau fod braidd yn gythryblus yn y cartref hefyd, ond dim ond am gyfnod byr. Efallai mai chi sy'n rhy feirniadol.

AQUARIUS
Mae hwn yn fis prysur iawn yn astrolegol - fe allai unrhyw beth ddigwydd, a mae e'n debygol o wneud! Cewch gawodydd Ebrill ac ysbeidiau o heulwen. Bydd gennych ddigon o ynni, dyfalbarhad, a phenderfyniad, ond gofalwch beidio â bod yn rhy unplyg eich syniadau nag yn rhy opimistaidd. Cymrwch hoe fach o'r holl weithgarwch neu mi flinwch yn ormodol.

PISCES
Amser gwych i spring clinio a chymennu'r cartre. Ond peidiwch â gorwario chwaith! Tua chanol y mis bydd tipyn o dwyll o'ch cwmpas. Peidiwch â choelio pob peth a glywch, a fe allai rhyw gymysgedd godi dros arian. Cymrwch ofal! Ddiwedd y mis mi ddylech fod mewn hwyliau creadigol iawn, yn enwedig gyda chynlluniau ar gyfer y dyfodol.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816




**Y TABERNACL**
**CAPEL Y BEDYDDWYR, CAERDYDD**

**Trefn yr oedfaon bob dydd Sul tan fis Medi, 1988:**

**11.45 a.m. Oedfa'r bore ac Ysgol Sul**

**6.00 p.m. Oedfa'r hwyr**

**Croeso cynnes i bawb**

Mae ein meddyliau efo tair o ddarllenwyr cyson Y Dinesydd. Avril Lewis sydd yn anhwylus ac yn brwydro yn erbyn yr afiechyd poenus athritis. Nan Prytherch ac Enid Jones, y dair yn derbyn triniaeth yn ysbyty'r Waun. Dymunwn wellhad buan iddynt.

Dymunwn yn dda i Hywel Teifi Edwards sydd yn Ysbyty'r Waun ers rhai wythnosau, ac yn raddol wella ar ôl cyfnod hir o waeledd. Y mae ei ysbryd siriol yn siwr o fod o help mawr iddo.

Dymunwn wellhad buan i Elin Angharad, merch Tegwen a John Albert Evans sydd wedi bod yn sâl ers wythnosau. "Mi wella pan ddaw'r gwanwyn" fydd hi Elin, a mae hwnnw wrth y drws.

Dymunwn wellhad buan i John Wood sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar yn ysbyty'r Waun.




*Arlwyo Avril*
**Partïon, ac Achlysuron Arbennig.**
Darperir at unrhyw rif.
Rhywbeth at ddant pawb.
Bwyd ffres.
Prisiau rhesymol.
Ffôn 481001 (Caerdydd) am fwydlen.



Gwersi piano, theorie a phib
Mrs. Almut Davies - L.R.A.M
61, Oakfield Street
Y Rhath
Ffôn: 488399
Cysylltwch o fis Awst ymlaen


Y MAE'R GOLYGYDD A HAWL I GWTOGI ERTHYGLAU NEU BEIDIO A'I CYNNWYS OS YW GOFOD YN BRIN.

# Arddangosfeydd

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

Y PRIF ADEILAD    PARC CATHAYS
GERALLT CYMRO    tan 30 HYDREF

Mae 1988 yn wyth canmlwyddiant taith hanesyddol Gerallt Cymro y cymeriad hynod o'r oesoedd canol.

Arddangosfa yw hon i ddathlu ei gamp nodedig, ac y mae'n un o'r arddangosfeydd mwyaf cyffrous a drefnwyd yng Nghymru erioed. Byddwch yn cael eich dwyn yn ôl drwy'r oesoedd i brofi atgynhyrchiad rhyfeddol o awyrgylch ddramatig, a golygfeydd amrywiol Cymru yn y ddeuddegfed ganrif.

Dilynwch hanes ei fywyd a'i daith a chael difyrrwch ac addysg yr un pryd. Cyflwynir gan CADW.

Ar agor bob dydd o 10 - 5

Mynediad: oedolion £2.00, plant a phensiynwyr £1.00

Parti ysgolion i drefnu ymlaen llaw.

ORIEL    Heol Siarl    tan 30 Ebrill

TAITH TRWY GYMRU

GERALLT CYMRO 1188 - 1988

Ie, arddangosfa arall am daith Gerallt, ond trwy lygaid artistiaid heddiw ac o'r ail ganrif ar bymtheg. Cyfle i weld printiadau gan gynnwys casgliad CADW a gomisiynwyd yn arbennig at y dathliad.

CHAPTER    Heol y Farchnad, Canton

D-MAX    tan 10 Ebrill

1 Arddangosfa o ffotograffau gan rai o'r prif ffotograffwyr Du Prydain.

2 Arddangosfa'n cyfleu hanes pobol Dduon yng Nghaerdydd.

Y FFOTOGALLERY    Heol Siarl

9 Ebrill - 14 Mai

LLUNIAU DINAS - Bruce Gilden

GALLAF HELPU _ Paul Reas

Yn agored Llun i Sadwrn 10.30 - 5.30

---

Cor Philharmonig Caerdydd

**Cyngherdd**

Perfformiad o

**GLORIA** (Vivaldi)

**TE DEUM LAUDAMUS** (Haydn)

**CORAWL FANTASIA** (Beethoven)

**Sadwrn 7ed Mai am 7.30**

Neuadd y brifysgol
Heol Corbett Parc Cathay

**Artistiaid:**

**Soprano:** Iona Jones

**Mezzo Soprano:** Marion McCullogh

**Organ:** Robert Court

**Piano:** Martin Jones

**Arweinydd:** Alun Guy

**Tocynau:** £3.50 oddiwrth Margaret Barrett

Gwesty Penylan. Ffon 496444

neu wrth y drws.

# LLYFRAU



DYLUNIO'R DELYNEG, Stephen Jones
Cyhoeddiadau Barddas 1987 tt 66
Pris £4.50

Brodor o Rhosllanerchrugog (a bod yn fanwl gywir i'r sawl sy'n deall - o'r Ponciau) yw Steffan fel ei hadnabyddir yn lleol ac eisioes wedi ymddeol ers sawl blwyddyn o'i swydd fel prifathro Ysgol Gynradd y Ponciau. Cyfrol gyntaf yw hon - cerddi dealladwy mewn llawysgrif gain a dyluniadau mewn du a gwyn, y cyfan o waith y bardd ei hun.

Rhoi llais i wahanol adar sy'n wynebu problemau byw a pharhad yr hil y mae naw o'r cerddi. Adar fel y dryw, y barcud a'r gwcw. Cymysgedd yw gweddill y cerddi a'r destunau fel y Nadolig, Natur, y Bon, a hunan. Cyfrwng y lluniau i'w sgrafwrdd, sy'n gyrfwng digon anodd, ac er fod rhai wedi ei gorweithio efallai, y mae nifer dda yn llwyddo ac yn darawiadol iawn. Gan fod y gyfrol wedi ei rhwymo'n ddestlus ac wedi ei gwnïo, (nid ei gludo) y mae'n cyfleu teimlad hapus o waith llaw cywrain iawn.

Tad y bardd ifanc Dewi Stephen Jones i'w Steffan ac y mae'n ŵr sy'n cyfrannu llawer o ddefnydd tebyg i'w bapur bro 'Nene'. Cyfrol gan gymwynaswyr da ei fro, ac un i'w chymeradwyo.

# COLOFN I FEDDWL

Dyma hi yn fis Ebrill, ac ar y Sul cyntaf o'r mis mae hi'n Ddydd y Pasg.

Wedi tywyllwch dyddiau'r dioddefaint, roedd y canhwyllau ynghyn, a'r lliwiau llachar yn llanw bywyd. Does dim rhyfedd fod Y Pasg yn dod yn nhymor y gwanwyn, pan fo'r ddaear yn dod yn fyw eto, ond mae'n rhaid i ni wylio rhag mynd i sentmentaleiddio'n wag am Y Pasg, a'i gymharu i natur yn adfywio, a'r cyw yn dod o'r ŵy. Mae'r Pasg yn aruthrol fwy na hynny.

Un peth fydd yn aros yn fy meddwl i bob Pasg, yw'r sioc gafodd y rheini ddaeth i'r ardd at y bedd, a'i gael yn wag. "NID YW EFE YMA - Pam yr ydych yn ceisio'r byw ymhlith y meirw" - a nhwythau wedi ei weld e'n marw marwolaeth greulon croes, a chael ei roi mewn bedd benthyg. NID YW EFE YMA.

Wel, lle ar y ddaear mae e te -
"Os ti sy wedi mynd ag ef" medde Mair wrth y person oedd hi'n gredu mai'r garddwr oedd e - "dwed wrthoi fel y gallai ddod o hyd iddo."
A FE OEDD E - "Mair" medd fe, "Raboni" medde hithe.
Oedd roedd hi'n dipyn o sioc iddyn nhw siwr o fod i ddarganfod fod y bedd yn wag.

Pan y'ch chi'n dechrau meddwl am brofiad Mair a'r garddwr, mae'n ddigon hawdd meddwl ein bod ninne hefyd weithie yn chwilio am yr Iesu yn y mannau anghywir; Iesu BYW yw'n Iesu ni, nid un a FU byw nac un a FYDD byw ond sy YN fyw. Mae hanes wedi'n sicrhau ei fod wedi byw, ac mae ffydd yn dweud wrthon ni y bydd e byw. Mae'n rhaid i'n profiad ni ohono ac ynddo ein sicrhau ei fod YN fyw heddiw. A dyna ran o waith y Cristion siwr o fod, gwneud y Crist yn Grist cyfoes. Mae'r hanesydd Arnold Toynbee wedi dweud yn rhywle mai arwydd o nychdod mewn gwareiddiad yw'r ffaith ein bod yn ymbleseru mewn edrych yn ôl at yr hen amseroedd da, neu ar y llaw arall edrych ymlaen at amser gwell i ddyfod. Mae'r un peth yn wir am grefydd hefyd.

Mae 'n fyw ymhob angen yn ein byd ni heddiw. Y Fam Theresa ddwedodd mai nid gweld wynebau plant a thlodion a thrueiniaid wnai hi ar strydoedd dinas Calcutta ond gweld yr Iesu ei hun yno YN yr wynebau, trwy YMATEB i'r angen hwnnw a dangos fod ei gariad, ei gyfiawnder a'i gydymdeimlad ef yn bod heddiw yn ein byd ni.

Meurwyn.

# Cydymdeimlo


Bu'r mis diwethaf yn un trist dros ben i Mair a Gwyndaf Owen, Highfields, Llandâf. Bu farw mam a thad Mair o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd yn y Felin Heli a dymunwn gydymdeimlo'n ddwys iawn â hi yn ei cholled enbyd.

Cydymdeilwn yn ddwys â un o ffyddloniaid Y Dinesydd ar ei phrofedigaeth o golli ei mham. Mae ein meddyliau efo Mallt Anderson a'r teulu yn eu colled.

Cydymdeimlwn â Mair a Gerallt Evans yn eu profedigaeth. Bu farw tad Mair yn ei gartref yn Sir Benfro ar ddydd Sul 6 Mawrth yn 95 oed. Bydd y teulu cyfan gan gynnwys ei wyresau Catrin, Siwan a Betsan a'i wyrion Mathew Rhys a Hannah Fflur yn hiraethu ar ei ôl.

Clywsom gyda thristwch am farwolaeth Hannah Davies, Rhiwbeina, a dymunwn gydymdeimlo a'i gŵr Edgar, a'i merched Cynthia a Mae a'u teuluoedd yn eu colled.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn    RHIF 80



Ar Draws

1. Beiciais yn sigledig a chefais fy hun yn y clawdd (8)
6. Teclyn cywrain a luniwyd wedi i mi ddrachtio'r olaf o'r ddiod (7)
9. Stiward eisteddfodol, efallai (6)
10. Cornel deche (ddethau) (3,5)
11. Amlygwyd arwriaeth wrth wneud iawn am y drwg hir (8)
12. Erfyn am newid un o chwech ar draws, a'u hail-drefnu (6)
13. Rhaid plygu iddi pan fo bannod o'i blaen (5)
14. Ai fy nghŵn a redodd yn wyllt? Roedd hynny yn anheg! (9)
17. Mae hi'n gadael y ffordd yn glir i bawb sydd am ei dilyn (5,4)
19. Llawer sïort (5)
22. Pe roddwn y peth yn iawn, cefnogwyr fyddent (6)
23. Neges bwysig D.O., o'i throsi, yn cyffwrdd â chydwybod (8)
24. Rhyddhad! (8)
25. Cyflwr diferol dy groen (6)
26. "Y mae'r ......'n dod i ben," (w.w.) (6)
27. Tywysog ag hanner cant gydag ef yn gwneud rhywbeth an anghysurus o gyffrous (8)
20. A.G. yn fotio yn ffwndrus i ddwyn rhywbeth yn ôl (7)
21. Rownd a rownd yn ddi-stop? (6)

I Lawr

2. Rhai a roddant eu croesau i lawr (7)
3. O hyd ac o hyd (3,1,5)
4. Gwastraffu adar fu yn mudo (6)
5. Ni ellir roddi coel ar yr hanes sy'n rhoi tynged od S. a'i harwr (5,10)
6. Dyw'r ledi ddim yn ddilys, er y gellid ei diwygio i fod felly (8)
7. Y mae'n urddo yn seremoniol (7)
8. Gosod i lawr yn gartrefol (9)
13. Rhai pigog iawn ydynt (9)
15. Sbiaf mewn dryswch ar wynt o'r gwaelod eithaf (9)
16. Diddordebau di-ddechrau a drowyd i bwrpas parhaol gan eint tadau, yn ôl Elfed (8)
18. Mae'n ysgrifennu mewn tipyn o steil (7)

DATRYSIAD RHIF 79

Ar Draws
1. GOGWYD; 4. SGRECHIAN;
10. ATAFAELIR; 11. ARFOG;
12. HEN LANC; 13. ISLYWYDD;
14. OERNI; 15. SWYDDOGOL;
18. COFIADWY; 20. DIGRI;
23. SANCLER; 25. ANAGRAM;
26. ANDES; 27. ACENNAIST;
28. DRYGIONI; 29. OSOGWR;

I Lawr
1. GLANHAODD; 2. GRAENIR;
3. YMTALLAI; 5. GWREIDDYN Y MATER;
6. EFAILL; 7. ADFYWIO;
8. NEGYDDU; 9. BLE CEST DI'R DDAWN;
16. OEDRANNUS; 17. GIMASTER (neu GIAMSTAR); 19. UFNADWY;
21. GORLIFO; 22. YSBAID; 24. LYSTI;

Daeth pum datrysiad i law. Pedwar ohonynt yn gywir a'r llall ag un gwall bach. Y pump oedd Huana Simpson, Y Bontfaen, Gwenllian Cwyn Jones, Yr Eglwysnewydd, Marged Davies, Llandaf, Marged Jones, Cyncoed ac A.R. Yr enw lwcus a ddaeth o'r het oedd Marged Davies, Llandaf. O hyn ymlaen gellir anfon y datrysiad at Ap Lewsyn ei hun - 13 Rannoch Drive, Cyncoed.

CYLCH MEITHRIN RHIWBEINA

Yn eisiau Athrawes i ddysgu o 9 - 12 bob bore.

Manylion ymhellach oddi wrth yr ysgrifennydd Caerdydd 693254

# PENARTH A DINAS POWIS

CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWIS

Daeth cynulliad gref ynghyd ar Fawrth y Cyntaf i ddathlu Dydd Gwyl Dewi yng nghlwb BP y Sili. Ein gwestai oedd Mrs Dilys Wynne Lloyd ac fe'i croesawyd i'n plith gan ein cadeirydd Mr Peter Davies. Rhoddwyd eitemau cerddorol gan Luned Scourfield ar y delyn, a Gill Lloyd yn canu. Trwy garedigrwydd rhai o wragedd y Pwyllgor addurnwyd y byrddau'n ddeniadol . Cyflwynwyd anrheg a thusw o flodau i Mrs Lloyd, ar ran y Gymdeithas, gan Mrs Owena Hopwood.

Ar hyn o bryd mae aelodau'r Gymdeithas yn ceisio paratoi ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Casnewydd. Alwena a David Harries sydd wrthi'n hyfforddi ac yn gosod y sylfaen ar hyn o bryd, gan obeithio am lwyddiant ym mis Awst. Tybed pwy fydd yn cael cario'r gwpan adref?!!

Mis nesaf Noson y Garddwyr sydd ar y rhaglen. Cofiwch ddod a llu o gwestiynau. Bydd Jackie Emlyn, Carys Whelan a Dennis Morgan yn barod i drin a thrafod eich problemau a Rowland Owen wrth y llyw. Byddwn yn siwr o gael noson arbennig, felly dewch yn llu.

MERCHED Y WAWR - CANGEN PENARTH A'R CYLCH

Ar Fawrth 10 cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni ein siaradwr gwadd Y Barnwr Dewi Watkin Powell. Diolch calon iddo am ddod atom - roedd hi'n noson ddymunol ac addysgiadol ac fe gafodd pawb fwynhad wrth wrando ar hanes y Llysoedd Barn a swyddogaeth Barnwr. Mis nesaf, sef Ebrill 14 disgwyliwn gwmni Nyrs Rhydfelen Mrs Aneira Davies. Cofiwch neilltuo'r noson dewch yn dyrfa gryno. Ein cadeirydd eleni yw Mrs Jane Thomas. Miss Eilrys Davies yw'r ysgrifenyddes a Mrs Moyra Owen sy'n gofalu am yr ochr ariannol. Croeso i chi gyd i ymuno â ni ar yr ail ddydd Iau o bob mis.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD

Eleni roedd y gwasanaeth arbennig hwn ym Methel, Penarth. Cafwyd oedfa bendithiol iawn dan arweiniad Mrs Winifred Llywelyn, aelod o Fethel. Cymerwyd y rhannau defosiynol gan gynrychiolaeth o'r Capel Wesle, sef Bethel Rhiwbeina ac o'r Tabernacl addoldy'r Bedyddwyr yng Nghaerdydd, Salem, capel y Methodistiaid Canton ac o Eglwys yr Annibynwyr yn Minny St, Caerdydd. Yn anffodus, nid oedd Miss Mair Griffiths yn bresennol eleni trwy waeledd ond fe ddanfonwyd cyfarchion a dymuniadau da ati. Trafodwyd anerchiad hyfryd gan Mrs Iris Cobbe ar y thema "Drws Agored" ac fe rhoddodd Mrs Betsan Evans adroddiad pwrpasol a dymunol. Mae'r ddwy yn aelodau ym Methel, Penarth. Mrs Moyra Owen yr ysgrifenyddes a oedd yn gyfrifol am yr holl drefniadaeth.

Dymuna'r DINESYDD gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a derbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Gelfydd ydau De-Ddwyrain Cymru.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU




# GŴYL HEN GALAN MAI

Gŵyl Genedlaethol o
grefftau traddodiadol, chwaraeon ac adloniant

**EBRILL 29, 30, MAI 1, 2, 1988**
gan gynnwys Gŵyl Fai
10·00 - 5·00 bob dydd

Diwrnod i'r brenin ... a'r teulu
Gŵyl na ddylech mo'i cholli


Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd

---

GŴYL HEN GALAN MAI, 1988
Amgueddfa Werin Cymru

# CYMANFA GANU

**O EMYN-DONAU**
**DR JOSEPH PARRY**



ARWEINYDD: Dr Terry James

ORGANYDD: D. Meirion Evans

Datganiadau o rai o Gytganau'r
Dr Joseph Parry gan
Côr Meibion Dowlais
(Arweinydd John Samuel)

NOS SUL, 1 MAI 1988, am 8 o'r gloch

Parcio cyfleus — Pabell wresog
Lluniaeth — Mynediad drwy raglen 50c

Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan, Caerdydd Tel (0222) 569441

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

---




**SADWRN, 30 EBRILL 1988**

**Parcio cyfleus. Pabell wresog.**
**Bar a Lluniaeth Tocynnau: £3.00**

**AMGUEDDFA WERIN CYMRU,**
**SAIN FFAGAN** Tel. (0222) 569441

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

---

GŴYL HEN GALAN MAI, 1988
*OLD MAY DAY FAIR*

# CYNGERDD GWERIN
FOLK EVENING

Sulwyn Thomas
yn cyflwyno



PLETHYN
MABSANT
MYNEDIAD AM DDIM

NOS WENER, EBRILL 29ain, 1988 7.30 pm

Parcio cyfleus — Bar a Lluniaeth — Pabell Wresog
Tocynnau: £3.00 (£1.50 i blant, henoed a'r diwaith)
**Trefnir ar y cyd rhwng SAIN ag Amgueddfa Werin Cymru**

AMGUEDDFA WERIN CYMRU
SAIN FFAGAN Ffon (0222) 569441
**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
National Museum of Wales